

## 'YDYCH CHI WEDI'CH "NODI" I OROESI?

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Ymdrechwch i ddyfnhau gwerthfawrogiad y gynulleidfa o'r ffaith fod yn rhaid inni gasáu'r byd drwg hwn a'i grefydd gwrthgiliol, os ydym i dderbyn nod goroesi. Rhaid hefyd i'r bersonoliaeth Gristnogol fod yn eiddo inni a rhaid inni fod yn gwneud ewyllys Duw yn ffyddlon *ar adeg cychwyn enbyd y gorthrymder mawr*

### **MAE GOROESI YN DESTUN O'R CONSYRN MWYAF** (6 mun.)

O'u bygwth gan drychineb, ymdrecha pobl o ddifrif i oroesi (*w81 4/15 30; g75 10/22 31*)

Mae'r Tystion wedi profi fod y cenedloedd yn mynd ar eu pen i ddinistr (*g88 4/8 3-16*)

Daw'r diwedd yn bendant (Hab 2:3; Mth 24:21, 22, 37-39)

Ymarweddiad ac agwedd person fydd yn penderfynu a ddinistrir ef neu a fydd yn goroesi (Diar 1:31; 2Pedr 3:9-14)

Rhaid i oroeswyr ystyried pethau fel y gwna Duw; beth yw golygwedd Duw?

### **ESIAMPL ADDYSGIADOL YN NINISTR JERWSALEM, 607 C.C.C.** (18 mun.)

Pwysleisia proffwydoliaethau Eseciel bwysigrwydd cael golygwedd Duw

Cynorthwyodd y proffwydoliaethau hynny rai i oroesi'r dinistr Jerwsalem hwnnw

Fel y mae'n wir heddiw, cyfrifid pobl y pryd hwnnw yn bersonol gyfrifol (Esec 7:3)

Gwrthododd y mwyafrif o Iddewon olygwedd, penderfyniadau Duw (Esec 18:25)

Bu ychydig o Iddewon yn ffyddlon ac effro; paratoesant ar gyfer goroesi

Bu iddynt werthuso'r amodau a'u gweithredoedd yng ngoleuni golygwedd Duw

Mae angen gwneud yn debyg ar unrhyw un sy'n disgwyl goroesi yn ein dydd ni

Drwy archwilio'r hyn a gâi Duw yn ffaith yn Jerwsalem, 'rydym yn cael ein cynorthwyo i sicrhau ei olygwedd heddiw

Mae llawer o agweddau, arferion, sy'n gyffredin heddiw nad ydyn' nhw'n derbyn cymeradwyaeth Duw

O wneud y gwerthuso, ai golygwedd Duw sydd gennym mewn gwirionedd?

Cafodd Eseciel weledigaeth am y pethau ffaith a wneid yn Jerwsalem, a dylem ddysgu o hyn (*w88 9/15 13-14*)

Y tramgwyddwyr oedd Iddewon a honnai wasanaethu Jehofah (*kj 142-6*)

'Roedd gan y bobl hynny 'ddelw o eiddigedd,' efallai yn cynrychioli Asherah, duwies ffrwythlondeb y Cananeaidd (Esec 8:5, 6)

Enynnodd hyn eiddigedd y gwir Dduw; gwaharddai eilunaddoli

Heddiw yng Ngwledydd Cred honna pobl addoli Duw'r Beibl

Cynhwysa hyn eilunod, symbolau crefyddol, wrth addoli; yr un yw collfarn Duw ag yn oes Eseciel

'Ydi'n golygwedd ni yr un ag un Duw fod yr arferion hyn yn ffaith?

Gall ein goroesi neu'n dinistr ddibynnu ar ein golygwedd

Sarhawyd a sarheir Duw gan addoli a roir i greaduriaid (Esec 8:10-12)

Golygwedd yr Iddewon oedd bod Duw cystal â bod yn farw

Ychydig mae llawer heddiw yn ei hidio am Dduw, eto maent yn ymroi'n frwd i bethau eraill

Mae llawer yn frwd dros symbolau cenedlaethol, timau chwaraeon (*kj 147-9; re 194, troednodyn*)

Gan wrthod Duw fel Creawdwr dyn, gwell gan lawer esblygiad, y Fam Natur, damcaniaethau (*g61 11/22 5-7*)

Beth amdanom ni? 'Ydym ni'n coleddu golygweddau twyllodrus o'r fath?

Ai golygwedd Jehofah sydd gennym fod dyrchafu creaduriaid yn rhywbeth ffaith ganddo?

Addas yw inni ein harchwilio'n hunain

Addolai'r Iddewon gwrthgiliol y duw gau Tammus (Esec 8:14; *kj 150-3; g89 1/22 22*)

Duwod Babilonaidd oedd Tammus a chariad y dduwies ffrwythlondeb Ishtar

Dengys y weledigaeth hon mor ysbrydol angheuol yw gwrthgilio heddiw (*w88 9/15 13-14*)

Yn aml rhydd eglwysi anrhydedd ac amlygrwydd i gau dduwiau a duwiesau

Addoli Mair (*w89 5/1 20-2; g88 11/8 11-12*)

Addoli'r Drindod (*rs 405-6; ti 31*)

Addoli seintiau a chreiriau (*rs 184, 354; w91 11/15 3-4; g73 8/8 26-7*)

Mae Cristnogion yn gofalu addoli'r gwir Dduw yn unig (Ex 20:2, 3; 2Cor 6:14-18)

Addolai'r Iddewon yr haul hyd yn oed (Deut 4:19; Esec 8:16; *kj 154-8*)

Cyfeiliorni'n debyg wna eglwysi a chlerigwyr er nad addolant yr haul llythrennol

Trônt oddi wrth Dduw ac edrych i gyfeiriad gwyddoniaeth fodern, technoleg, deallaeth, am oleuni

Canlyniad troi at dechnoleg yw llygredd, yr ymryson arfau, moesoldeb newydd

'Ydym ni wedi'n cyfareddu gan gyflawniadau'r gofod?

'Ydych chi'n genfigennus o addysg uwch, ac yn ei hedmygu? (g88 1/22 28)

Mae sicrhau golygwedd Duw a glynu wrthi yn gofyn ymdrech

'Ydych chi'n gwneud yr ymdrech honno?

**I OROESI RHAID I BERSON DDOD YN UN O RAI DUW Â NOD ARNO** (Adroddwch gynnwys Eseciel 9:1-11 yn gryno) (*kj* 162-76; *w88* 9/15 14; *su* 94-7) (15 mun.)

Nid chwe dyn llythrennol wnaeth y gwaith difa ar y rhai heb nod

Cynrychiolai'r chwech rymoedd nefol

'Roedd cymeradwyaeth ddwyfol ar y dinistr a wnaed yn 607 C.C.C. gan y Babiloniaid

Y rhai sydd â nod goroesi heddiw ydi'r rhai a adwaenir yn addolwyr Duw

Yr hen, hen arfer oedd rhoi nod llythrennol neu enw'r duwdod ar dalcen person

Y nod symbolaidd yn dynodi fod person yn addoli Jehofah

Nid dim ond gwybodaeth Feiblaidd yn unig yw'r nod

Mae hynny'n eiddo i ysgolheigion a chlerigwyr; nid ydynt yn gwasanaethu Jehofah

Tystiolaeth yw'r nod bod unigolyn yn Dyst ymgysgredig, bedyddiedig i Dduw

Fod ganddo'r bersonoliaeth Crist-debyg

Fod nodweddion anhylosg yn eiddo iddo (1Cor 3:10-15)

Mae eraill yn sylwi fod yr un â'r nod ganddo, heb amheuaeth, yn Gristion (Eff 4:22-24)

Mae'n arddangos hynny yn y modd mae'n trin ei gymar priodas, cymdogion, ffrindiau ysgol (*tr* 187-9; *w87* 10/1 4-7)

'Ydi gwirionedd y Beibl wedi gwneud gwahaniaeth nodedig yn eich calon chi?

Mae'r un sydd â nod arno yn gofidio a galaru oherwydd yr amodau drwg sydd o'n hamgylch

Nid dim ond am eu bod yn anghyfleus ond am fod yr amodau drwg hyn yn dianrhydeddu Jehofah

Mae golygwedd Duw ganddo; mae o ddifri'n casáu'r hyn sydd ddrwg

Mae lle i wella yn hanes pawb ohonom i wneud y nod yn ein bywyd yn eglur

**ARDDANGOSWCH Y NOD DRWY HELPU ERAILL I GAFFAEL GOBATH GOROESI** (5 mun.)

Mae Tystion eneiniog wedi gweithio i helpu pobl yn fyd eang i gael golygwedd Duw, i gaffael y nod, i ddod i gael gobaith goroesi

Mae bendith Duw yn cadarnhau'r casgliad ei fod yn eu defnyddio nhw i wneud y gwaith gosod y nod

Mae pawb sy'n elwa o dderbyn y nod yn cyfranogi'n hapus yn y gwaith o ledaenu neges Duw

Gwyddant nad y bersonoliaeth Gristnogol yw'r prif amcan

Pregethu ac addysgu am y Beibl yw rhan naturiol tyfiant personoliaeth o'r fath

Mwynhewch lawenydd yn helpu'r Cristnogion eneiniog yn y gwaith gosod nod (*w88* 9/15 14; *su* 158-9)

**RHESWM DROS ROI DIOLCH I DDUW** (1 mun.)

Mae Jehofah wedi'n sicrhau ni fod goroesi'n bosibl; mae wedi'n deffro ni i'r angen am y nod hwn

Gwahoddwn chwi i gymdeithasu â Thystion

Medrwcwch felly elwa o'r rhaglen addysg a gweithgarwch Cristnogol sy'n helpu pobl i fod wedi'u nodi i oroesi (Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim angen crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)